***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 16

RHYDDHAD GRŴP

**RHAN 3**

CYFYNGIADAU AR ARGAELEDD RHYDDHAD

*Trefniadau penodol nad ydynt o fewn paragraff 4: cwmnïau cyd-fenter*

5 (1) Nid yw trefniadau yr ymrwymir iddynt gan gwmni cyd-fenter y byddent, oni bai am y paragraff hwn, yn drefniadau y mae paragraff 4 yn gymwys iddynt i'w trin fel trefniadau o'r fath—

(a) os yw, a chyhyd â bod, y trefniadau o fewn is-baragraff (2), a

(b) os na fu, a chyhyd na fu, unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau dibynnol a grybwyllir yn is-baragraff (3) y mae'r trefniadau'n ymwneud â hwy.

(2) Mae trefniadau o fewn yr is-baragraff hwn os ydynt—

(a) yn gytundeb sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo cyfranddaliadau neu warannau yn y cwmni cyd-fenter i un aelod neu ragor o'r cwmni hwnnw pan geir un neu ragor o'r digwyddiadau dibynnol a grybwyllir yn is-baragraff (3), neu o ganlyniad i hynny, neu

(b) yn ddarpariaeth yn un o ddogfennau cyfansoddiadol y cwmni cyd-fenter sy'n darparu ar gyfer atal dros dro hawliau pleidleisio aelod pan geir un neu ragor o'r digwyddiadau dibynnol hynny, neu o ganlyniad i hynny.

(3) Y digwyddiadau dibynnol y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (1)(b) a (2) yw—

(a) ymadawiad aelod yn wirfoddol,

(b) cychwyn trafodiadau datod, gweinyddu, derbynyddiad gweinyddol neu dderbynyddiad ar gyfer aelod, neu aelod yn ymrwymo i drefniant gwirfoddol, o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 (p. 45) neu Orchymyn Ansolfedd (Gogledd Iwerddon) 1989 (O.S.1989/2405 (G.I.19)) neu gychwyn, neu ymrwymo i, achos neu drefniadau cyfatebol o dan gyfraith unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

(c) dirywiad difrifol yng nghyflwr ariannol aelod,

(d) rheolaeth dros aelod yn newid,

(e) methiant ar ran aelod i gyflawni ei rwymedigaethau o dan unrhyw gytundeb rhwng yr aelodau neu â'r cwmni cyd-fenter (sydd, at y diben hwn, yn cynnwys unrhyw un neu ragor o ddogfennau cyfansoddiadol y cwmni cyd-fenter),

(f) newid allanol yn yr amgylchiadau masnachol y mae'r cwmni cyd-fenter yn gweithredu ynddynt i'r graddau bod bygythiad i'w hyfywedd,

(g) anghytundeb heb ei ddatrys rhwng yr aelodau, a

(h) unrhyw ddigwyddiad dibynnol tebyg i'r rhai a grybwyllir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (g) y darperir ar ei gyfer, ond na fwriadwyd iddo ddigwydd, pan ymrwymwyd i'r trefniadau o dan sylw.

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pe gallai aelod, ar ei ben ei hun neu ynghyd â phersonau cysylltiedig, bennu telerau neu amseriad—

(a) trosglwyddo cyfranddaliadau neu warannau, neu

(b) atal dros dro hawliau pleidleisio aelod,

cyn un neu ragor o'r digwyddiadau dibynnol.

(5) At ddibenion is-baragraff (4), nid yw aelodau yn gysylltiedig â'i gilydd yn unig oherwydd eu bod yn aelodau o'r cwmni cyd-fenter.

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr "aelod" ("*member*") yw deiliad cyfranddaliadau neu warannau yn y cwmni cyd-fenter;

ystyr "cwmni cyd-fenter" ("*joint venture company*") yw cwmni—

(a) sydd â dau neu ragor o aelod-gwmnïau, a

(b) sy'n ymgymryd â gweithgarwch masnachol a lywodraethir gan gytundeb sy'n rheoleiddio materion ei aelodau;

ystyr "dogfen gyfansoddiadol" ("*constitutional document*") yw memorandwm cymdeithasu, erthyglau cymdeithasu neu unrhyw ddogfen arall debyg sy'n rheoleiddio materion y cwmni cyd-fenter.